# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

# CLA625 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2015

## Gweithdrefn

Negyddol

## Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 (O.S. 1992/3238) ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41) ("Deddf 1988"), mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r rheolau hynny ar gyfer y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2016, neu ar ôl hynny, drwy ddefnyddio Atodlen 4 newydd (Ffigurau'r Boblogaeth Oedolion).

## Materion technegol: craffu

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 21.1(x) (oedi na ellir ei gyfiawnhau wrth osod gerbron y Cynulliad).

Gwnaethpwyd yr offeryn hwn ar 11 Tachwedd 2015; ni chafodd ei osod tan 30 Tachwedd 2015.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Roedd yr oedi cyn gosod yr offeryn hwn yn gamgymeriad gweinyddol anffodus a gafodd ei gywiro'n gyflym unwaith iddo gael ei nodi.  Nid oedd unrhyw effaith ymarferol ar waith Awdurdodau Lleol o gyfrifo eu cyfraniadau o ran Trethi Annomestig o ganlyniad i'r oedi cyn gosod y  Rheoliadau oherwydd roedd y Rheoliadau yn dal i fod wedi'u gosod mewn da bryd iddynt ddod i rym cyn y dyddiad cau statudol ar 31 Rhagfyr. Fodd bynnag, mae camau wedi'u cymryd i wella rheolaeth dros y broses osod a gwella gwaith monitro, gyda'r bwriad o liniaru'r risg o oedi cyn gosod offerynnau.

# Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2016 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd technegol uchod.